

**BE THE WAVE  
AR FRIG Y DON**

# Economi Gylchol

Gwybodaeth Gefndirol



cadwch keep  
gymru'n wales  
daclus tidy

**MARINE  
CONSERVATION  
SOCIETY**



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a  
Buddosodi Ewropeaidd  
European Structural  
and Investment Funds**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



Mae pob peth o'n cwmpas wedi dod o'r un lle – y blaned hon.

Mae ein byd yn darparu'r holl gynhwysion a'r deunyddiau crai ar gyfer cynhyrchu'r holl bethau rydym yn eu gwisgo, ac yn eu bwyta. Mae'n darparu'r pethau rydym yn chwarae gyda nhw, yn coginio gyda nhw yn ogystal â deunyddiau pacio ... mae'r blaned yn darparu popeth i ni! Mae gwneud pethau o'r dechrau yn defnyddio llawer o egni a gall y prosesau hyn fod yn niweidiol i'r blaned a phob peth sy'n byw arni. Rhaid cofio hefyd mai ond hyn a hyn o ddeunyddiau crai sydd ar y blaned a fydd yn rhedeg allan y pen draw. Yn ogystal â hyn, mae'r broblem yn codi ynglŷn â'r hyn rydym yn ei wneud gyda'r holl bethau ar ôl iddynt beidio bod yn ddefnyddiol i ni.

Os bydd gan Gymru Economi fwy Cylchol, bydd gan yr holl bethau hyn fywyd oes llawer hirach. Byddwn yn symud i ffwrdd o ddiwydiant 'defnydd sengl' neu 'dafladwy' ac yn edrych i ymestyn bywyd yr holl bethau rydym yn berchen arnynt. Mewn Economi fwy Cylchol, bydd yn haws ail-ddefnyddio ac atgyweirio eitemau cyn eu hailgylchu'n rhywbeth defnyddiol yn y pendraw.

Mae'r [ddogfen hon](#), sydd wedi'i chynhyrchu gan Lywodraeth Cymru yn helpu i esbonio hyn mewn mwy o fanylder.

#### Beth yw'r broblem i'n cefnforoedd?

Mae llawer o gynhyrchion ein heconomi 'cymryd-gwneud-gwaredu' neu 'linellol' yn cyrraedd y cefnforoedd ar ffurf deunyddiau pacio plastig defnydd sengl ac eitemau sydd wedi'u taflu. Yn ogystal â'r effaith uniongyrchol honno, ar hyn o bryd, mae 45% o allyriadau carbon y byd yn dod o'r ffordd mae'r byd yn cynhyrchu ac yn defnyddio nwyddau bob dydd. Mae'r allyriadau carbon hyn wedi'u cynhyrchu drwy'r egni sydd ei angen i echdynnu deunyddiau crai a'u prosesu a'u cynhyrchu'n nwyddau.

Mae allyriadau carbon a'r newid yn yr hinsawdd y maent yn eu hachosi yn cael effaith ddwys ar yr holl blaned, gan gynnwys yr ecosystem forol. Mae cynnydd mewn CO2 atmosfferig yn arwain at fwy o amsugniad gan y cefnforoedd sy'n arwain yn ei dro at ostyngiad yn pH y dŵr (mwy asidig). Mae gan yr asideiddio hwn ynghyd â chynnydd cyffredinol yn rhyngwladol y potensial i gael effaith drychinebus ar bob peth sy'n byw yn y môr.

Mae'r Economi Gylchol eisiau mynd y tu hwnt i ailgylchu a rhan hanfodol o'r model yw sut mae nwyddau yn cael eu cynhyrchu yn y lle cyntaf, gan eu gwneud yn hawdd i'w hailddefnyddio, eu hatgyweirio ac yn y pendraw eu hailgylchu'n nwyddau defnyddiol.



### Ydy hwn yr un peth ag ailgylchu?

Mae rhai eitemau yn ddelfrydol ar gyfer ailgylchu, gellir ailgylchu alwminiwm er enghraifft drosodd a throsodd, gan gadw'r nodweddion sy'n ei wneud mor ddefnyddiol i ni.

Ar y llaw arall, y broblem gyda phlastig yw bod y broses o'i ailgylchu yn fwy o ddirywiad na gylch anfeidrol. Fel arfer, mae plastigau yn cael eu didoli, eu glanhau, eu malu, eu toddi a'u hail-fowldio. Pob tro mae plastig yn cael ei ailgylchu fel hyn, mae'r ansawdd yn dirywio. Mae'r plastig newydd gradd is fel arfer yn anaddas i'w ddefnyddio ar gyfer pecynnu bwyd. Gellir ailgylchu'r rhan fwyaf o blastig nifer cyfyngedig iawn o weithiau cyn iddo ddiraddio gymaint ei fod yn amhosibl ei ddefnyddio.

Felly, hyd nes y gellir gwneud gwelliannau i'r broses bresennol, nid yw ailgylchu ar ei ben ei hun yn ateb i'r broblem sydd gennym, sef llai o adnoddau a chynnydd mewn gwastraff. Yn y pendraw y mae angen i ddylunwyr a gwneuthurwyr addasu'r ffordd y mae nwyddau'n cael eu gwneud. Fodd bynnag, yn y cyfamser, gallwn wneud popeth posibl i greu Economi Gylchol drwy: 1 – Lleihau – 2 Ailddefnyddio – 3 Atgyweirio – 4 Ailgylchu.



cadwch keep  
gymru'n wales  
daclus tidy